**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf - LF/AD/1134/13
Eich cyf -

Yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Tachwedd 2013

Annwyl Dafydd,

**BIL RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU) – CANLLAWIAU DRAFFT**

Yn unol â'm haddewid i'r Pwyllgor, ysgrifennaf i gadarnhau y bydd y canllawiau drafft ar gyfer Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) ar gael ddydd Mercher 4 Rhagfyr i'r aelodau eu hystyried a'u diwygio.

Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes eisoes wedi cytuno i'r Bil hwn gael ei gyflwyno drwy weithdrefn gyflym, a'n bod ni oll yn gweithio i derfynau amser tynn iawn. O gofio hynny, hyderaf y bydd y Pwyllgor yn cytuno i gyflwyno eu sylwadau ac unrhyw ddiwygiadau erbyn dydd Gwener 13 Rhagfyr, er mwyn gallu cadw at yr amserlen ddeddfwriaethol a chyflwyno'r canllawiau i'r awdurdodau lleol a pherchnogion ceffylau cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ddechrau mis Ionawr.

Yn Saesneg yn unig y cyflwynir y drafft o'r canllawiau gan ei bod yn bosibl y byddant yn newid. Bydd y fersiwn derfynol ar gael yn ddwyieithog.

Cofion
Alun

**Alun Davies AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*